**Nodiadau Drafft y CCB a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026**
**Cafodd y cyfarfod ei gynnal yn yr Ystafell Gynhadledd, Canolfan Optig, Llanelwy a'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Huw David | (HD) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio |
| Stephanie Humphries | (SH) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) |
| Elizabeth Evans | (EE) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Catherine Purcell | (CP) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgolion) |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |

*Dechreuodd y cyfarfod am 12:10*

Wedi'i Cadarnhau

| CCB 2026.07.14/1 | Croeso ac Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau |
|---|---|

Croesawodd PB bawb i'r cyfarfod, ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion wyneb yn wyneb ac ar-lein. Nododd mai pwrpas y CCB hwn o'r Bwrdd oedd adolygu cyflawniadau'r flwyddyn 2025/26 a oedd yn cynnwys y sefyllfa ariannol, trafod y cyfleoedd a'r heriau i ddod, yn ogystal â rhoi cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd a staff.

Crynhodd PB y newidiadau i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys ffarwelio ag Angela Williams a ymddeolodd ym mis Mawrth, a chroesawu Zoe Pietrzak i rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad.

Nododd PB hefyd mai dyma fyddai ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol olaf fel Cadeirydd, cyn iddi ymddeol ym mis Hydref 2026. Diolchodd i gydweithwyr y Bwrdd am eu cefnogaeth a myfyriodd yn gadarnhaol ar ei phrofiad fel Cadeirydd.

Croesawodd hefyd Catherine Purcell i'r Bwrdd fel Cyfarwyddwr Anweithredol y Brifysgol, ac estynnodd groeso'n ôl i Huw David, Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol). Ymunodd Huw David â'r Bwrdd ym mis Mai 2025 a dychwelodd ym mis Mai 2026 yn dilyn cyfnod byr i ffwrdd o'r Bwrdd o fis Rhagfyr 2025.

**Nododd** y Bwrdd **yr ymddiheuriadau** a restrir uchod.

| CCB 2026.07.14/2 | Datganiadau Ariannol 2025/26 |
|---|---|

Cyflwynodd ZP sefyllfa ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2025/26, a thynnodd sylw at y ffaith fod y sefydliad wedi cyrraedd yr holl dargedau ariannol a dyletswyddau statudol, ac wedi cynnal sylfaen ariannol gref.

Pwysleisiodd y pwyntiau allweddol a ganlyn:

- Cyrhaeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr holl dargedau ariannol a dyletswyddau statudol yn 2025/26, gan gyflawni sefyllfa o adennill costau effeithiol a sicrhau barn archwilio ddiamod heb unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu.
- Cynhaliodd y sefydliad stiwardiaeth ariannol gref, gan gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol a thargedau talu prydlon.
- Cynyddodd gwariant 5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd dyfarniadau cyflog, newidiadau mewn Yswiriant Gwladol a thwf y gweithlu; roedd costau'r gweithlu yn cyfrif am 64% o gyfanswm y gwariant.
- Gwnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru arbedion o £1.3 miliwn yn ystod y flwyddyn, gan ddangos ffocws parhaus ar effeithlonrwydd a gwerth am arian.

| CCB 2026.07.14/3 | Crynodeb o Weithgarwch – Adroddiad Blynyddol 2025/26 |
|---|---|

Rhoddodd TC drosolwg o'r cyflawniadau a nodir yn Adroddiad Blynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025/26, gan dynnu sylw at gynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol y sefydliad. Pwysleisiodd fod gwella disgwyliad oes iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn parhau i fod yn ffocws cyffredinol yng ngwaith y sefydliad.

- **Dylanwadu ar Benderfynyddion Iechyd Ehangach:** Roedd y cynnydd yn cynnwys dylanwadu ar agenda polisi Llywodraeth Cymru drwy dystiolaeth a chyngor iechyd y cyhoedd, ochr yn ochr â gwaith i gefnogi lleoedd iach, tai, cartrefi cynnes a chamau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi plant.

Wedi'i Cadarnhau

- **Hyrwyddo Llesiant Meddyliol a Chymdeithasol** Roedd y cyflawniadau allweddol yn cynnwys y gwaith o gefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar, llesiant meddyliol mewn ysgolion, Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), dulliau sy'n seiliedig ar drawma a rhaglenni i gefnogi llesiant mewn gweithleoedd a chymunedau.
- **Hyrwyddo Ymddygiadau Iach:** Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar roi'r gorau i ysmygu, pwysau iach, gweithgarwch corfforol a'r rhaglen Cynllun Gwên, gan gefnogi pobl ledled Cymru i wneud dewisiadau iachach a lleihau salwch y gellir ei atal.
- **Cefnogi System Iechyd a Gofal Cynaliadwy:** Gwnaed gwaith sylweddol i hyrwyddo gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal, gan gynnwys Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol o ran lleihau'r achosion o bobl yn symud ymlaen i ddatblygu diabetes, a chefnogaeth i gryfhau gwasanaethau iechyd a gofal yn y gymuned.
- **Darparu Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd Rhagorol:** Parhaodd y sefydliad i ddarparu gwasanaethau sgrinio, microbioleg, genomeg a diogelu iechyd o ansawdd uchel, a oedd yn cynnwys gwahodd dros filiwn o bobl i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio a phrosesu mwy na dwy filiwn o brofion labordy yn ystod y flwyddyn.
- **Mynd i'r Afael ag Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ar Iechyd y Cyhoedd:** Roedd y cynnydd yn cynnwys darparu tystiolaeth a chyngor i gefnogi gweithredu ar newid hinsawdd ledled Cymru, ochr yn ochr â mentrau i leihau effaith amgylcheddol y sefydliad ei hun. Roedd hyn yn cynnwys gwaith Hyrwyddwyr y Labordy Gwyrdd i leihau gwastraff a chynyddu ailgylchu.
- **Galluogi Cyflawni ein Cynllun yn llwyddiannus:** Roedd y cyflawniadau'n cynnwys dynodiad yn Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Degwch Iechyd Digidol, sefydlu Awdurdod Dylunio Deallusrwydd Artiffisial, rhoi Strategaeth Pobl wedi'i hadnewyddu ar waith, buddsoddiad parhaus mewn diwylliant ac arweinyddiaeth, a chryfhau trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar draws y sefydliad.

Diolchodd TC i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu hymrwymiad a'u hymroddiad a nododd fod cyflawniadau'r sefydliad dros y 12 mis blaenorol wedi bod yn bosibl diolch i ymdrechion ei bobl a'u hymrwymiad ar y cyd i wella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru.

| **CCB 2026.07.14/4** | **Gyrfaoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru** |
|---|---|

Rhoddodd NL drosolwg o yrfaoedd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan dynnu sylw at yr ystod eang o gyfleoedd proffesiynol sydd ar gael ar draws iechyd y cyhoedd, gwasanaethau corfforaethol, a swyddogaethau digidol, dadansoddol a chymorth. Pwysleisiodd ymrwymiad y sefydliad i ddatblygu talent y dyfodol drwy brentisiaethau a phartneriaethau ag ysgolion, colegau a phrifysgolion, ac anogodd y mynychwyr i archwilio'r llwybrau gyrfa amrywiol sydd ar gael o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.

| **CCB 2026.07.14/5** | **Sesiwn Holi ac Ateb** |
|---|---|

Cyflwynodd CJ yr eitem a chroesawodd gwestiynau gan y Cyhoedd a oedd wedi dod i law ymlaen llaw, yn ogystal â chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Mae crynodeb ysgrifenedig o'r cwestiynau a'r ymatebion a roddwyd ar gael ar y wefan.

| **CCB 2026.07.14/6** | **Crynodeb a Chau'r Cyfarfod** |
|---|---|

Daeth PB â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau.

Daeth y Cyfarfod i ben am 13:10

Wedi'i Cadarnhau